

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

335 - Beirniadaeth Cerdd mewn mydr ac odl dan 25

Beirniad: Nia Mon

Llongyfarchiadau mawr i DAN GLO am gyfansoddi cerdd allai'n hawdd gystadlu ar lefel Talwrn y Beirdd. Er y siom mai dyma'r unig gystadleuydd, byddai'n sicr wedi bod yn gamp i'w guro/churo. Mae'r bardd wedi llwyddo yn hyderus i gyfansoddi cerdd feddylgar a chynnal delwedd er gwaethaf caethiwed mydr ac odl. Llwyddiannus hefyd yw ei g/chrefft wrth oferu llinellau, a does dim geiriau gwag yma er mwyn cyflawni odl.

Brechlyn yw'r testun ac mae'n dangos dawn gyda dsigrifiadau llenyddol o hylif mewn brechiad - "Gorwel gobaith - mae'n cyferbynnu'r frwydr o greu brechlyn gyda rhyfel, "y goncwest ym mlaen nodwydd"... "sy'n arf" a dangos dyfnder dealltwriaeth wrth weu'r ddelwedd yn gelfydd drwy linellau sy'n disgrifio'r daearol/wyddonol.

Mae yma ôl crefft, dealltwriaeth a thalent, ac edrychwn ymlaen at gyfrolau'r dyfodol. Llongyfarchiadau a dalier ati!

1af - Elena Ruddy